World Heritage Sites

# Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd

unesco

United Kingdom
National Commission
for UNESCO



Taflen ffeithiau

33

Taflen ffeithiau 33

# Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd

**Mae rhai o gestyll mwyaf godidog Cymru yn ein hatgoffa o gyfnod cythryblus, pan oedd brenhinoedd Lloegr a thywysogion Cymru yn cystadlu am rym. Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech oedd y cestyll gorau a godwyd gan y Brenin Edward I yng Nghymru. Yng Nghaernarfon a Chonwy, adeiladwyd trefi newydd o fewn muriau anferth ar yr un pryd â'r cestyll. Dechreuwyd a chwblhawyd y cyfan i raddau helaeth rhwng 1283 a 1330. Y canlyniad, yn unigol ac ar y cyd, yw'r enghraifft orau sydd wedi goroesi o bensaernïaeth filwrol diwedd y drydedd ganrif ar ddeg yn Ewrop.**


### Beth sy'n gwneud y Dynodiad UNESCO hwn yn arbennig?

Un o ganlyniadau penderfyniad brenin Edward I o Loegr (1272-1307), a gyhoeddwyd ar 17 Tachwedd 1276, i fynd yn erbyn Llywelyn ap Gruffudd, tywysog Gwynedd (m.1282) 'fel gwrthryfelwr ac un sy'n aflonyddu ar ei heddwch', oedd dechrau rhaglen o adeiladu cestyll yng Nghymru ar raddfa na welwyd ei thebyg o'r blaen. Yn ystod yr 20 mlynedd nesaf, cychwynnwyd wyth castell newydd gan y brenin, gyda rhai ohonynt yn cynnwys trefi caerog sylweddol. O'r rhain y goreuon oedd Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech.

Mae'r cestyll hyn fel grŵp yn enghraifft wych o bensaernïaeth filwrol ganoloesol a ddyluniwyd ac a gyfarwyddwyd gan James of St George, prif bensaer Brenin Edward I o Loegr, a phensaer milwrol mwyaf yr oes. Ynghyd â'r dogfennau manwl a oedd yn cyd-fynd â'u hadeiladwaith, maent yn un o brif gyfeiriadau hanes canoloesol.

Nid yw cynlluniau, deunyddiau, graddfa a chyflawnder y cestyll wedi newid fawr ddim o'u ffurfiau canoloesol ac maent yn arddangos ystod o nodweddion amddiffynnol gan gynnwys barbicanau, giatiau caerog, daeargelloedd a thyrau. Ynghyd â muriau tref Conwy a Chaernarfon maent yn cyfuno harddwch pensaernïol gyda grym amddiffynnol a phresenoldeb bygythiol.

World Heritage Sites



**Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd**

Siroedd: **Gwynedd, Conwy, Ynys Mon**


**cadw.gov.wales/visit/best-history/castles-town-walls-king-edward-gwynedd**

**CaernarfonCastle@gov.wales**
**BeaumarisCastle@gov.wales**
**ConwyCastle@gov.wales**
**HarlechCastle@gov.wales**



Cynhyrchwyd y daflen ffeithiau hon gan Gomisiwn Cenedlaethol y DU ar gyfer UNESCO fel rhan o'i brosiect Lleol i Fyd-eang, a wnaed yn bosibl gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, gyda diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

UKNCFSWHS04v1.1 / DEC 2024